OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 2364 (Cy.203)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2008

Gwnaed - - - -	*4 Medi 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*8 Medi 2008*
Yn dod i rym - -	*1 Hydref 2008*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 124 a 203 (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2008 sy'n dod i rym ar 1 Hydref 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989(**2**).

Diwygio rheoliad 4 o'r Prif Reoliadau

2. Yn rheoliad 4 o'r prif Reoliadau (ymwelwyr tramor sy'n esempt rhag ffioedd)—

(a) ym mharagraff (1), ar ôl is-baragraff (p) mewnosoder—

", or

(q) who the competent authorities of the United Kingdom for the purposes of the Council of Europe Convention on Action Against Trafficking in Human Beings(**3**) (in this regulation "the Convention"),

(i) consider that there are reasonable grounds to believe is a victim within the meaning of Article 4 of the Convention, and the recovery and reflection period in relation to him under Article 13 of the Convention has not yet expired; or

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) 1989/306 (fel y'i diwygiwyd).
(**3**) Confensiwn Cyngor Ewrop ar Weithredu yn erbyn Masnachu mewn Pobl 2005 (CETS Rhif 197).